Tachwedd 2016

Gweithio gyda'n gilydd i ddarparu sicrwydd

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Diben y papur hwn yw disgrifio'r mecanweithiau cyfunol rydym yn eu defnyddio i brofi effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn y GIG yng Nghymru.

Beth yw Llywodraethu?

Ar gyfer y GIG yng Nghymru, diffinnir llywodraethu[1] gan Gydffederasiwn y GIG fel:

> **' System atebolrwydd i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach y mae sefydliadau gofal iechyd yn gweithio, yn gwneud penderfyniadau, ac yn arwain eu pobl i gyrraedd eu hamcanion oddi mewn iddi.**
>
> **… Mae'n cyfeirio at y ffordd y mae cyrff y GIG yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd sy'n cynnal y gwerthoedd[2] a osodwyd ar gyfer sector cyhoeddus Cymru.'**

Ym maes iechyd a gofal mae nifer o agweddau llywodraethu allweddol.

1 Llywodraethu corfforaethol: mae llywodraethu corfforaethol yn cyfeirio at y mecanweithiau, y prosesau a'r arferion a roddir ar waith i sicrhau y caiff y sefydliad ei redeg yn briodol. Defnyddir y fframwaith gan fwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth GIG i gwrdd â'u rhwymedigaethau a'u hamcanion mewn perthynas â'r holl staff, cleifion a phobl Cymru.

2 Llywodraethu ariannol: mae llywodraethu ariannol yn cyfeirio at y ffordd y caiff cyllid sefydliad ei lywodraethu. Caiff hyn ei lywio gan y fframwaith rheolau, prosesau ac arferion mae sefydliad yn ei ddefnyddio er mwyn sicrhau atebolrwydd, tegwch a thryloywder o ran stiwardiaeth a defnydd da o gyllid y sefydliad.

3 Llywodraethu clinigol: dyma'r ffordd y mae'r GIG yn gweithio i wella a chynnal a chadw ansawdd a diogelwch y gofal mae cleifion yn ei dderbyn. Y diben yw sicrhau y caiff cleifion y gofal iawn, ar yr amser iawn, yn y lle iawn, a bod hynny'n digwydd yn iawn y tro cyntaf.

Pam mae angen i ni weithio gyda'n gilydd?

Mae gan ein sefydliadau priodol wahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau. Mae'r gweithgareddau rydym yn ymgymryd â nhw i gyflawni'r rhain yn cwmpasu ac yn cefnogi asesiadau llywodraethu fel yr amlinellwyd uchod. Tra bod Swyddfa Archwilio Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar agweddau corfforaethol ac ariannol llywodraethu, mae AGIC yn rhoi pwyslais arbennig ar lywodraethu clinigol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn annibynnol ar ei gilydd, ac mae gwneud cysylltiadau ac uno ein gwaith priodol yn ein helpu i ddarparu asesiad cymesur o lywodraethu yng nghyrff y GIG. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn hefyd sicrhau bod ein gwaith yn **effeithlon**, **cyflenwol**, ac yn **cyflawni'r effaith fwyaf**. Rydym yn gwneud hyn trwy:

- rannu gwybodaeth er mwyn llywio ein rhaglenni gwaith priodol;
- dibynnu ar waith ein gilydd i leihau unrhyw fylchau ac ailadrodd; a
- chyflawni gweithgareddau ar y cyd lle gall ein hadnoddau cyfunedig gynyddu effeithlonrwydd ac effaith.

1 **E-Lawlyfr** 'Beth yw llywodraethu?'
2 Fframwaith gwerthoedd a safonau ymddygiad, ynghyd â rheolau sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog enghreifftiol, yw'r elfennau allweddol yn fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd y GIG yng Nghymru **e-lawlyfr**

Sut rydym yn galluogi ein gweithgareddau i gysylltu

Mae gan bob sefydliad raglen waith a gweithgareddau ei hun, ond rydym wedi mabwysiadu arferion sy'n ein cefnogi i gydweithio a chydweithredu. Caiff ein dull ar gyfer datblygu rhaglenni gwaith cydgysylltiedig a rhannu gwybodaeth ei bennu yn ein Protocol Gweithredol ar y cyd.[3] Mae'r diagram canlynol yn darparu trosolwg eang o'n gweithgareddau priodol mewn byrddau iechyd a'r nifer o wahanol ffyrdd rydym yn eu defnyddio i rannu ein canfyddiadau, gwybodaeth a rhaglenni gwaith.



3 **Protocol Gweithredol rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.** Archwilydd Cyffredinol Cymru, AGIC. Mis Mawrth 2015

4 Mae Rheolwyr Perthynas yn rheoli'r rhyngweithiad gyda sefydliad er mwyn symud amcanion AGIC yn eu blaen. Maent yn chwarae rôl allweddol o ran cynllunio gweithgarwch arolygu a sicrwydd AGIC ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd o fewn y GIG.

5 Cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch yw cyfarfodydd ble mae Byrddau yn craffu ar faterion ansawdd a diogelwch mewn mwy o fanylder.

Sut rydym yn gwneud i hyn weithio'n ymarferol

Bod yn fwy effeithlon – Profi Llywodraethu Clinigol a Chorfforaethol

I ddeall ac asesu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, mae angen i'r ddau sefydliad eu gweld yn cael eu defnyddio'n ymarferol, gan gynnwys gweld yr amryw bwyllgorau ar waith. Rydym wedi newid y ffordd rydym yn gweithio i wella effeithlonrwydd ac i fwyhau ein cyfraniadau, sgiliau ac adnoddau priodol. Er enghraifft, mae pwyllgorau ansawdd a diogelwch yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol o ran sut mae bwrdd iechyd yn ymdrin â materion llywodraethu clinigol. Bellach mae AGIC yn mynychu mwy o'r pwyllgorau hyn nag yn y gorffennol, gyda Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnal mwy o ffocws ar y Bwrdd a phwyllgorau eraill fel elfen allweddol o'i gwaith asesu strwythuredig. Gan ddefnyddio'r galluogwyr a amlinellwyd uchod, rydym hefyd wedi cytuno ar ddull o rannu ein canfyddiadau a'n harsylwadau i ddilyn a thriongli materion o'r brig i'r bôn ac o'r bôn i'r brig trwy ein rhaglenni gwaith a gweithgareddau priodol.

Rhaglenni Gwaith Cyflenwol – Cydgysylltu ein cynllunio

Er nad yw pob adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar lywodraethu, gall unrhyw adolygiad ddatguddio materion llywodraethu sy'n gofyn am ymchwiliadau pellach. Felly, at ddibenion cynllunio ac i fwyhau ein heffeithlonrwydd, rydym yn rhannu ein rhaglenni gwaith yn eu cyfanrwydd. Mae hyn yn ein galluogi i ddileu dyblygu yn y ddwy raglen, er, ar brydiau, gallem nodi bod angen edrych ar yr un pwnc o wahanol safbwyntiau.

Y dull yw cydweithio i sicrhau sylw cyflenwol a chynhwysol gan ddefnyddio cryfderau a sgiliau perthnasol pob sefydliad. Mae timau adolygu'n cadw mewn cysylltiad ac yn rhannu canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, gan ymuno â chyfarfodydd ei gilydd ac adolygu adroddiadau drafft. Mae hyn yn sicrhau bod ein gwaith, ar y cyd, yn ychwanegu mwy o werth, er ei bod yn bosibl na fyddem bob tro yn bathodynnu'r adroddiadau fel cyd-gyhoeddiadau.

Er enghraifft, yn ystod 2016-17, mae'r ddau sefydliad yn bwriadu ymgymryd â gwaith sy'n edrych ar drefniadau rhyddhau cleifion o ysbytai. Mae pob sefydliad yn edrych ar agweddau penodol o'r broses o ryddhau cleifion ac rydym yn cydweithio'n agos er mwyn cynllunio ein gweithgareddau priodol i sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd, ac y gellir dibynnu ar waith y naill a'r llall lle bo hynny'n briodol.

Effaith Mwy – Cyd-ymateb i bryderon

Deilliodd Cydadolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2013 o'n trafodaethau a chydweithrediadau rheolaidd, gyda'n gwybodaeth a thystiolaeth gyfunol yn dangos pryderon cyffredin ynghylch llywodraethu yn y bwrdd iechyd. Daethom i gasgliad ei bod yn briodol, yn angenrheidiol ac yn amserol i gyflawni gwaith adolygu ar y cyd, gyda thîm adolygu unigol yn tynnu ar arbenigedd, sgiliau a gwybodaeth y ddau sefydliad. Gwnaethom gynllunio a chyflenwi'r gwaith gyda'n gilydd, gan gynhyrchu adroddiad unigol a darparu trosolwg cyfunol o'r heriau llywodraethu roedd y bwrdd iechyd yn eu hwynebu.

Gwnaeth ein hadroddiad ar y cyd yn 2013 lywio ymchwiliad dilynol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac roedd yn ysbardun ar gyfer gwneud y newidiadau angenrheidiol i uwch-arweinyddiaeth y bwrdd iechyd. Rydym wedi cyflawni rhagor o waith dilynol ar y cyd yn 2014 a 2015 sydd wedi cadw'r ffocws ar yr heriau llywodraethu mae'r bwrdd iechyd yn eu hwynebu, ac mae ein gwaith wedi llywio penderfyniadau Gweinidogion yn y pen draw i osod mesurau arbennig ar y bwrdd iechyd fel rhan o'r broses uwchgyfeirio ac ymyrryd dridarn sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith ar y cyd yn y bwrdd iechyd yn enghraifft glir o'r effaith y gellir ei chyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd ac yn siarad ag un llais lle rydym wedi nodi pryder cyffredin.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales